Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

CYFLWYNIAD

Croeso i'r arddangosfa hon, sy'n cyflwyno Gorchmynion drafft cynllun arfaethedig Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd, Gwybodaeth Amgylcheddol ac adroddiadau cysylltiedig.

BETH YW GORCHMYNION DRAFFT?

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Gorchmynion drafft, sy'n cynnwys y pwerau cyfreithiol i sefydlu llinell, addasu'r ffyrdd ymyl, prynu tir a rhoi unrhyw hawliau eraill sydd eu hangen i gyflawni'r cynllun ar waith. Mae'r Gorchmynion drafft yn cael eu hategu gan amserlenni, dogfennau a darluniau.

GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL

Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn nodi'r prif effeithiau amgylcheddol ac yn disgrifio'r mesurau arfaethedig i osgoi, unioni neu leihau'r effeithiau a gwella'r amgylchedd lle y bo'n ymarferol. Mae Datganiad i Lywio Asesiad Priodol ar wahân yn disgrifio'r effeithiau tebygol ar Safleoedd Cadwraeth Natur Rhyngwladol ac Ewropeaidd.

Gellir gweld yr holl ddogfennau a gwybodaeth sydd ar gael ar wefan ein prosiect **www.llyw.cymru/m4casnewydd.**

INTRODUCTION

Welcome to this exhibition, which presents the proposed M4 Corridor around Newport scheme's draft Orders, Environmental Information and associated reporting.

WHAT ARE DRAFT ORDERS?

The Welsh Government are publishing draft Orders, which comprise the legal powers to establish a line, modify the side roads, purchase land and put in place any other rights needed to deliver the scheme. Supporting the draft Orders are schedules, documents and drawings.

ENVIRONMENTAL INFORMATION

The Environmental Statement identifies the main environmental effects and describes the proposed measures to avoid, remedy or reduce effects and provide environmental enhancement where practicable. A separate Statement to Inform an Appropriate Assessment describes the likely effects on International and European Nature Conservation Sites.

All available documents and information can be viewed on our project website **www.gov.wales/m4newport**.

Y CYNLLUN ARFAETHEDIG / THE PROPOSED SCHEME

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, mabwysiadodd Gweinidogion Cymru'r 'Cynllun' strategol ar gyfer Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd ym mis Gorffennaf 2014.

Mae'r cynllun yn cynnig rhan newydd o draffordd rhwng Cyffyrdd 23 a 29 i'r de o Gasnewydd; ynghyd â mesurau ategol, gan gynnwys: Gwelliannau i ddiogelwch, trefniadau mynediad a'n gallu i reoli traffig drwy ailddosbarthu llwybr presennol yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach yn gefnffordd; Ffordd liniaru i Gyffordd 23A, y rhwydwaith ffyrdd lleol a mynediad i'r cyfleusterau parcio a theithio arfaethedig wrth orsaf reilffordd Cyffordd Twnnel Hafren â chysylltiad M4/M48/B4245 newydd; Darparu seilwaith cerdded, seiclo a marchogaeth cyfeillgar.

Byddai'r cynllun arfaethedig yn costio tua £1 biliwn ac yn cael ei ariannu drwy gyfuniad o fenthyciadau gan Lywodraeth y DU a chyllidebau Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru.

Following public consultation, the Welsh Ministers adopted the strategic 'Plan' for the M4 Corridor around Newport, in July 2014.

The scheme proposes a new section of motorway between Junctions 23 and 29, south of Newport; alongside complementary measures, including: Improvements to safety, access arrangements and our ability to manage traffic by reclassifying the existing M4 between Magor and Castleton as a trunk road; Relief to Junction 23A, the local road network and access to the proposed park and ride facilities at Severn Tunnel Junction railway station with a new M4/M48/B4245 connection; and Providing walking, cycling and equestrian friendly infrastructure.

The proposed scheme would cost around £1 billion and would be funded through a combination of UK Government borrowing, and Welsh Government Transport budgets.



GORCHMYNION DRAFFT / DRAFT ORDERS

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gorchmynion Drafft yw'r pwerau i sefydlu llinell, addasu'r ffyrdd ymyl, prynu tir a rhoi unrhyw hawliau eraill sydd eu hangen i gyflawni'r cynllun ar waith.

Nodir y dogfennau a restrir isod mewn llyfrau o amserlenni a darluniau yma heddiw.

DOGFEN	BETH MAE HYN YN EI OLYGU
Cynlluniau Cyfeirio Tir	Mae'r rhain yn nodi'r tir y byddai ei angen er mwyn adeiladu a chynnal y Cynllun a gwneud y gwaith lliniaru amgylcheddol gofynnol ar ei gyfer.
Gorchymyn Cynllun Drafft	Er mwyn darparu rhan newydd o'r draffordd ddeuol â thair lôn rhwng Magwyr a Chas-bach i'r de o Gasnewydd, ei ffyrdd ymuno ac ymadael newydd a ffyrdd cysylltu. Mae hefyd yn darparu ar gyfer pontydd sy'n croesi dyfrffyrdd mordwyadwy.
Gorchymyn Amrywio Cynllun Drafft	Mae'n ailddosbarthu'r rhannau amrywiol o draffordd bresennol yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach a thraffordd yr A48(M) rhwng Cas-bach a Llaneirwg. Er na fyddai'r rhannau hyn yn draffyrdd mwyach byddent yn parhau i fod yn gefnffyrdd.
Gorchymyn Llinell Drafft	Er mwyn darparu ar gyfer y rhan newydd o'r gefnffordd sydd ei hangen ar gyfer y cynllun.
Gorchymyn Ffyrdd Ymyl Drafft	Er mwyn cau, gwella neu newid rhai rhannau o ffyrdd, llwybrau troed, llwybrau seiclo, cilffyrdd, llwybrau ceffylau a mynedfeydd preifat sy'n bodoli eisoes, er mwyn adeiladu priffyrdd newydd a darparu mynedfa breifat newydd.

Cyhoeddir y Gorchmynion ar ffurf ddrafft ac maent yn rhoi cyfle i unrhyw unigolyn neu sefydliad eu gwrthwynebu, eu cefnogi neu awgrymu dewisiadau amgen iddynt. Fel rhan o'r broses gyfreithiol, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pob un o'r ymatebion i'r Gorchmynion drafft ac wedyn yn penderfynu p'un a ddylid cynnal Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus.

Draft Orders are the powers to establish a line, modify the side roads, purchase land and put in place any other rights needed to deliver the scheme.

The documents listed below are set out in books of schedules and drawings here today.

DOCUMENT	WHAT THIS MEANS
Land Reference Plans	These set out the land that would be required to build, maintain and provide the environmental mitigation that would be required for the Scheme.
Draft Scheme Order	To provide a new length of dual 3-lane motorway between Magor and Castleton to the south of Newport, its new slip roads and connecting roads. It also provides for bridges passing over navigable waterways.
Draft Scheme Variation Order	Reclassifies the various lengths of existing M4 motorway between Magor and Castleton, and the A48(M) motorway between Castleton and St Mellons. Although these lengths would cease to be motorways they would continue to be trunk roads.
Draft Line Order	To provide for the new length of trunk road required for the project.
Draft Side Roads Order	To stop up, improve or alter some lengths of existing roads, footpaths, cycle routes, byways, bridleways and private accesses, to construct new highways and provide new private means of access.

The Orders are published in draft and provide the opportunity for any person or organisation to object, support or suggest alternatives. As part of the legal process, the Welsh Government will consider all of the responses to the draft Orders and then decide whether to hold a Public Local Inquiry.

GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL

Mae 'Datganiad i Lywio Asesiad Priodol' yn disgrifio effeithiau'r Cynllun ar Safleoedd Cadwraeth Natur Rhyngwladol ac Ewropeaidd.

Mae Datganiad Amgylcheddol yn ystyried prif effeithiau amgylcheddol y Cynllun ac yn disgrifio'r mesurau arfaethedig i osgoi, unioni neu leihau'r effeithiau a gwella'r amgylchedd lle y bo'n ymarferol. Fe'i cyflwynir yn:

Y Crynodeb Annhechnegol – trosolwg o'r adroddiad llawn;
Cyfrol 1 - Adroddiad ar yr Asesiad Technegol;
Cyfrol 2 - Ffigurau;
Cyfrol 3 - Atodiadau Technegol.

Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn ymdrin â phynciau gan gynnwys:

1. Cyflwyniad
2. Disgrifiad o'r Cynllun
3. Adeiladu'r Cynllun
4. Datblygu'r Cynllun a'r Dewisiadau Amgen a Ystyriwyd
5. Y Dull Asesu Amgylcheddol
6. Cyd-destun Polisi
7. Ansawdd yr Aer (gan gynnwys carbon)
8. Treftadaeth Ddiwylliannol
9. Y Dirwedd ac Effeithiau Gweledol
10. Ecoleg a Chadwraeth Natur

Gall unrhyw unigolyn neu sefydliad gyflwyno sylwadau ar yr adroddiadau hyn. Mae copïau electronig a phapur ar gael i'w prynu. Gofynnwch i'n staff am ragor o wybodaeth.

ENVIRONMENTAL INFORMATION

A 'Statement to Inform an Appropriate Assessment' describes the effects of the Scheme on International and European Nature Conservation Sites.

An Environmental Statement considers the main environmental effects of the Scheme and describes the proposed measures to avoid, remedy or reduce effects and provide environmental enhancement where practicable. It is reported in:

Non-Technical Summary (NTS) – an overview of the full report;
Volume 1 – Technical Assessment Report;
Volume 2 – Figures; and
Volume 3 – Technical Appendices.

The Environmental Statement covers topics including:

1. Introduction
2. Scheme Description
3. Scheme Construction
4. Scheme Development and Alternatives Considered
5. Approach to Environmental Assessment
6. Policy Context
7. Air Quality (including carbon)
8. Cultural Heritage
9. Landscape and Visual Effects
10. Ecology and Nature Conservation

Any person or organisation may comment on these reports. Electronic and paper copies are available to purchase. Please ask our staff for more information.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Mawrth / March 2016

ADRODDIADAU CYSYLLTIEDIG

Rydym wedi llunio sawl adroddiad i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar y prosiect. Mae hyn yn cynnwys canlyniadau gwahanol asesiadau a gynhaliwyd gennym.

DOGFEN	BETH MAE HYN YN EI OLYGU
Adroddiad Asesu Cynllun	Mae'n rhoi trosolwg o'r cynllun arfaethedig.
Adroddiad Datblygu Cynaliadwy	Mae'n disgrifio sut mae'r cynllun arfaethedig yn cyd-fynd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru.
Adroddiad Asesu Economaidd	Mae'n ystyried costau a manteision tebygol y cynllun ac yn darparu cyfrifiadau gwerth am arian.
Adroddiad Asesiad Effaith Economaidd Ehangach	Mae'n ystyried effeithiau tebygol y cynllun arfaethedig ar yr economi yn ystod y cam adeiladu a'r cam gweithredu.
Adroddiad Cyd-destun Defnyddwyr Heblaw Modurwyr	Mae'n disgrifio'r sefyllfa bresennol ar gyfer cerddwyr, seiclwyr a marchogion ac yn ystyried sut y dylid darparu ar eu cyfer fel rhan o'r cynllun.
Adroddiad Rhagamcanu Traffig	Mae'n crynhoi'r rhagamcanion traffig ar gyfer y cynllun gan ystyried senarios gwahanol yn y dyfodol.
Adroddiad Dilysu Model Lleol	Mae'n crynhoi'r model traffig blwyddyn sylfaenol, sy'n dangos yr amodau teithio presennol, ac mae'n sail ar gyfer rhagamcanu traffig a chynnal asesiadau economaidd.

ASSOCIATED REPORTING

We have produced a number of reports to inform decision making on the project. These include the results of various assessments that we have undertaken.

DOCUMENT	WHAT THIS MEANS
Scheme Assessment Report	Provides an overview of the proposed scheme.
Sustainable Development Report	Describes how the proposed scheme aligns to the Welsh Government's principles of sustainable development.
Economic Assessment Report	Considers the likely costs and benefits of the scheme, providing calculations of value for money.
Wider Economic Impact Assessment Report	Considers the likely impacts of the proposed scheme on the economy during its construction and operation.
Non-Motorised Users Context Report	Describes the existing situation for pedestrians, cyclists and equestrians, and considers how provision should be made as part of the scheme.
Traffic Forecasting Report	Summarises the traffic forecasting of the scheme, taking into account different future scenarios.
Local Model Validation Report	Summarises the base year traffic model, which shows current travel conditions, and is the basis for undertaking traffic forecasting and economic assessment.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BETH SY'N DIGWYDD NESAF

Nodir rhaglen Llywodraeth Cymru isod:

GWEITHGAREDD	DYDDIAD ALLWEDDOL	GWEITHGAREDD
Cyhoeddi'r Gorchmynion Drafft, y Datganiad Amgylcheddol a gwybodaeth ategol arall	Mawrth 2016	Gall unrhyw un wrthwynebu neu gefnogi'r Gorchmynion drafft neu awgrymu dewisiadau amgen iddynt, neu gynnig sylwadau ar y Datganiad Amgylcheddol a/neu'r Datganiad i Lywio Asesiad Priodol. Dylid anfon pob ymateb i gyrraedd Llywodraeth Cymru cyn 4 Mai 2016.
Gweinidogion Cymru yn penderfynu a ddylid cynnal Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus	Haf 2016	Gweinidogion Cymru yn penderfynu a ddylid cynnal Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus.
Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus	Hydref 2016	Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus.
Byddai Gweinidog Cymru yn penderfynu a ddylid gwneud y Gorchmynion Statudol	Hydref / Gaeaf 2017	Byddai Gweinidog Cymru yn penderfynu a ddylid gwneud y Gorchmynion Statudol.
Dechrau adeiladu	Gwanwyn 2018	Dechrau adeiladu.
Rhan newydd o'r draffordd yn agor	Hydref 2021	Rhan newydd o'r draffordd yn agor.
Cwblhau'r gwaith ailddosbarthu	Hydref 2022	Cwblhau'r gwaith o ailddosbarthu traffordd bresennol yr M4 yn gefnffordd.

WHAT HAPPENS NEXT

The Welsh Government's programme is:

ACTIVITY	KEY DATE	WHAT THIS MEANS
Publication of Draft Orders, Environmental Statement and other supporting information	March 2016	Any person or organisation can object, support or suggest alternatives to the draft Orders, or comment on the Environmental Statement and/or the Statement to Inform an Appropriate Assessment. All responses should be sent to arrive at the Welsh Government no later than the 4 May 2016.
Welsh Ministers' decision whether to hold a Public Local Inquiry	Summer 2016	Welsh Minister's decision whether to hold a Public Local Inquiry.
Public Local Inquiry	Autumn 2016	Public Local Inquiry.
Welsh Ministers would decide whether to make the Statutory Orders	Autumn/ Winter 2017	Welsh Minister's would decide whether to make the Statutory Orders.
Commence construction	Spring 2018	Commence construction.
New section of motorway open	Autumn 2021	New section of motorway open.
Completion of reclassification	Autumn 2022	Completion of reclassification of existing M4 to a trunk road.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

YSTYRIED EICH SYLWADAU BLAENOROL

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Nodir isod y materion a godwyd amlaf gennych a sut rydym wedi'u hystyried.
Os oes gennych ymholiad arall, siaradwch ag aelod o'n staff.

DYWEDOCH CHI	GWNAETHON NI
Gwnaethoch ofyn am fwy o wybodaeth am y mesurau cerdded, seiclo a marchogaeth arfaethedig.	Rydym wedi siarad â rhanddeiliaid a chyflwynir ein mesurau arfaethedig i gynnal a gwella hawliau tramwy cyhoeddus a mynedfeydd mewn Adroddiad Cyd-destun Defnyddwyr Heblaw Modurwyr a Phennod 14 o'r Datganiad Amgylcheddol 'Pob Teithiwr'.
Roeddech am gael gwybod am ddewisiadau amgen, a llwybrau gwahanol, a ystyriwyd.	Nodir cefndir y prosiect a'r dewisiadau amgen a ystyriwyd gennym ym Mhennod 4 o'r Datganiad Amgylcheddol 'Datblygu'r Cynllun a Dewisiadau Amgen a Ystyriwyd'. Mae adroddiadau blaenorol ar ddewisiadau amgen hefyd ar gael.
Gwnaethoch holi ynghylch yr effeithiau tebygol ar ansawdd aer, yn ystod y cam adeiladu ac ar ôl cwblhau'r prosiect.	Rydym wedi casglu data ansawdd aer ac wedi cynnal asesiadau. Cyflwynir y canlyniadau nawr ym Mhennod 7 o'r Datganiad Amgylcheddol 'Ansawdd Aer'.
Gwnaethoch ofyn am wybodaeth am yr effeithiau sŵn tebygol, yn ystod y cam adeiladu ar ôl cwblhau'r prosiect.	Pan wnaethom ymweld â chi ddiwethaf ym mis Medi 2015, roeddem yn casglu data sŵn ac yn cynnal asesiadau cysylltiedig. Cyflwynir y canlyniadau ym Mhennod 13 o'r Datganiad Amgylcheddol 'Sŵn a Dirgrynu'.
Gwnaethoch ofyn am wybodaeth am yr effeithiau gweledol tebygol a mesurau lliniaru, megis gwaith tirlunio a phlannu i sgrinio'r ffordd newydd.	Rydym wedi cynnal asesiadau a chyflwynir y canlyniadau ym Mhennod 9 o'r Datganiad Amgylcheddol 'Tirwedd ac Effeithiau Gweledol', sy'n cynnwys 'ffotogyfosodiadau' o olygfeydd gyda'r prosiect a hebddo.
Gwnaethoch ofyn am wybodaeth am yr effeithiau tebygol yn ystod y cam adeiladu, gan gynnwys yr effeithiau ar draffig, llwch a dirgrynu.	Rydym wedi ystyried sut y gellid adeiladu'r Cynllun ac wedi siarad â phobl a sefydliadau lleol am drefniadau mynediad. Gan ystyried eich sylwadau, mae Adroddiad Adeiladwyedd wedi'i lunio ac fe'i cyflwynir fel atodiad i Bennod 3 o'r Datganiad Amgylcheddol. Mae darluniau ar gael i ddangos yr ardaloedd gwaith dros dro y byddai eu hangen arnom.
Gwnaethoch ofyn am ddarluniau manylach, ar raddfa fwy, o'r cynigion.	Gan ystyried eich sylwadau, rydym wedi datblygu gofynion dylunio a thir y prosiect. Yn ogystal â diagram o'r prosiect a diagram cyd-destun, gyda rhai darluniau manylach o'r cyffyrdd, rydym hefyd wedi llunio nifer o Orchmynion drafft a chynlluniau cyfeirio tir. Dengys y rhain y cynigion yn fanylach.
Gwnaethoch ofyn am fwy o arddangosfeydd rhyngweithiol mewn arddangosfeydd.	Mae copïau papur ac electronig o wybodaeth ar gael yma, mewn mannau adneuo ac ar-lein, ac mae staff ar gael i'w hegluro i chi. Yn ogystal â model 'gyrru drwodd' rydym bellach wedi llunio model rhithwir 3D, sy'n eich galluogi i weld sut y byddai'r prosiect yn edrych o leoliadau gwahanol.

TAKING INTO ACCOUNT YOUR PREVIOUS COMMENTS

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Below are frequently raised issues and how we have taken them into account.
If you have another query, please ask a member of staff.

YOU SAID	WE DID
You asked for more information about the proposed walking, cycling and equestrian measures.	We have spoken with stakeholders and our proposed measures to maintain and improve public rights of way and accesses are reported in a Non-Motorised User Context Report, and Chapter 14 of the Environmental Statement 'All Travellers'.
You wanted to know more about alternatives, and different routes, that have been considered.	The background of the project and the alternatives we've considered is set out in Chapter 4 of the Environmental Statement 'Scheme Development and Alternatives Considered'. Previous reporting on alternatives is also available.
You asked about the likely air quality effects, both during construction and after the project.	We've collected air quality data and done assessments. The results are now reported in Chapter 7 of the Environmental Statement 'Air Quality'.
You asked for information about the likely noise effects, both during construction and after the project.	When we last visited you in September 2015, we were collecting noise data and undertaking associated assessments. The results are reported in Chapter 13 of the Environmental Statement 'Noise and Vibration'.
You asked for information about the likely visual impacts and mitigation, such as the screening of the new road with landscaping and planting.	We've carried out assessments and the results are reported in Chapter 9 of the Environmental Statement 'Landscape and Visual Effects', which includes 'photomontages' of views with and without the project.
You asked for information about the likely effects during construction, including impacts on traffic, dust and vibration.	We've looked at how the Scheme could be built and spoken to local people and organisations about access arrangements. Taking into account your comments, a Buildability Report has been prepared and is reported as an appendix to Chapter 3 of the Environmental Statement. Drawings are available to show you the temporary working areas we would need.
You asked for more detailed drawings, at a larger scale, of the proposals.	Taking into account your comments, we have developed the design and land requirements of the project. In addition to a project diagram and context diagram, with some more detailed drawings of the junctions, we have also prepared a number of draft Orders and land reference plans. These show the proposals in more detail.
You asked for more interactive displays at exhibitions.	Paper and electronic copies of information are available here, at deposit points and online, and staff are available to talk you through it. As well as a 'drive through' model we've now produced an interactive model, which allows you to see what the project would look like from different locations.

LLEISIO EICH BARN

Gall unrhyw un wrthwynebu neu gefnogi'r Gorchmynion drafft neu awgrymu dewisiadau amgen iddynt, neu gynnig sylwadau ar y Datganiad Amgylcheddol a/neu'r Datganiad i Lywio Asesiad Priodol. Dylid anfon pob ymateb i gyrraedd Llywodraeth Cymru cyn 4 Mai 2016.

Y Gangen Gorchmynion
Trafnidiaeth
Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays, Caerdydd
CF10 3NQ

HAVING YOUR SAY

Any person or organisation can object, support or suggest alternatives to the draft Orders, or comment on the Environmental Statement and/or the Statement to Inform an Appropriate Assessment. All responses should be sent to arrive at the Welsh Government no later than the 4th May 2016.

Orders Branch
Transport
Department for Economy, Science and Transport
Welsh Government,
Cathays Park, Cardiff
CF10 3NQ

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

DIOLCH

Diolch am eich amser heddiw, gobeithio bod y wybodaeth yn ddefnyddiol i chi. Os nad ydych wedi dod o hyd i'r hyn roeddech yn chwilio amdano, neu os nad ydych wedi cael ateb digonol i'ch ymholiad, siaradwch ag aelod o'n tîm prosiect cyn i chi adael.

Mae copïau o'r Gorchmynion drafft, y Datganiad Amgylcheddol a'r wybodaeth ategol hefyd ar gael yn ystod oriau swyddfa arferol yn y lleoliadau isod:

- Y Gangen Gorchmynion, Trafnidiaeth, Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.
- Cyngor Dinas Casnewydd, Y Ganolfan Ddinesig, Godfrey Road, Casnewydd, NP20 4UR.
- Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA.
- Cyngor Sir Fynwy, Tŷ Arloesi, Parc Busnes Cymru 1, Magwyr, Sir Fynwy, NP26 3DG.
- Llyfrgell Ganolog Casnewydd, Sgwâr John Frost, Casnewydd, NP20 1PA.

Gellir gweld yr holl ddogfennau a gwybodaeth sydd ar gael ar wefan ein prosiect **llyw.cymru/m4casnewydd**.

Gallwch hefyd anfon neges e-bost i **info@m4-can.co.uk** os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch.

THANK YOU

Thank you for your time today, we hope you found the information helpful. If you haven't found what you are looking for, or haven't had your query sufficiently responded to, please speak to a member of our project team before you leave.

Copies of the draft Orders, Environmental Statement and supporting information are available during normal office hours at the locations below:

- Orders Branch, Transport, Department of Economy Science and Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.
- Newport City Council, Civic Centre, Godfrey Road, Newport, NP20 4UR.
- Monmouthshire County Council, County Hall, Rhadyr, Usk, NP15 1GA.
- Monmouthshire County Council, Innovation House, Wales 1 Business Park, Monmouthshire, NP26 3DG.
- Newport Central Library, John Frost Square, Newport, NP20 1PA.

All available documents and information can also be viewed on our project website **www.gov.wales/m4newport**.

You may also email **info@m4-can.co.uk** if you require more information.